Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi fframwaith i gyrff cyhoeddus a llywodraeth a all helpu'n barhaus i wella'r ffyrdd y mae sefydliadau'n gweithredu ac yn gwneud pethau, a'u galluogi i wneud y cysylltiad rhwng eu gweithredoedd nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i fod yn feiddgar, i arloesi ac i fentro i ysgogi buddion hirdymor a gwella llesiant Cymru nawr ac yn y dyfodol. Roedd rhai uwch swyddogion yn cydnabod yr angen i newid eu canfyddiad o risg a sbarduno newidiadau beiddgar tuag at gwneud penderfyniadau mwy cynaliadwy. Mae angen rhoi mwy o ryddid i weision sifil arbrofi, a sicrwydd bod camgymeriadau yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd dysgu ar gyfer gweithgareddau ehangach. Cydnabu'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol hefyd:

"Mae angen i ni symud o ddiwylliant gwrth-risg cymaint â phosibl er mwyn cyflawni... ar y nodau o ran atal, integreiddio, a hirdymor. Mae'n rhaid i ni gymryd rhai risgiau o ran datblygu a gweithredu polisi, neu fydden ni ddim yn gwneud y pethau rydyn ni'n eu gwneud nawr."

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ystod o ddulliau newydd o gefnogi newid diwylliant yn unol â'r Ddeddf drwy gynnig dysgu a datblygu helaeth. Mae rhai o'r dulliau hyn wedi'u cynllunio i'w darparu ar draws y sefydliad, fel y Fenter Diogelu'r Dyfodol; mae eraill wedi'u teilwra i broffesiynau penodol, megis y Fframwaith Gallu Polisi a luniwyd ar gyfer pob lluniwr polisi; tra bod eraill wedi'u datblygu o hyd gan dimau penodol i'w helpu i ddeall y Ddeddf yn fewnol a'i chymhwyso.

Er bod llu o gamau i gefnogi codi ymwybyddiaeth, deall a chymhwyso'r Ddeddf, mae'n ymddangos nad yw rhai camau'n cael eu rhoi ar waith, mae angen datblygu eraill ymhellach, ac mae angen i lawer fod yn fwy cydgysylltiedig er mwyn darparu gwell eglurder o ran cynnig dysgu. Mae angen eglurder hefyd ynghylch lefel y ddealltwriaeth o'r Ddeddf sydd ei hangen ar gyfer gwahanol rolau a phroffesiynau yn y llywodraeth a'r ffordd fwyaf effeithiol o'i chyflawni. Mae angen i Lywodraeth Cymru symud y tu hwnt i greu set o ddeunyddiau a dulliau gweithredu i gefnogi newid, a thuag at ddysgu mewnol parhaus a rennir ynghylch y canlyniadau y mae'r dulliau hyn yn eu cyflawni. Mae angen iddynt ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth ddylent roi'r gorau i'w wneud. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen hwn ac wedi ymgysylltu mewn ffordd gydweithredol â'm tîm drwy gydol yr adolygiad hwn, gyda'r awydd i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wella ymhellach. Ochr yn ochr â hyn, mae cyfleoedd i wella'r ffordd y mae'r mecanweithiau'n cydgysylltu; y gellid ei gyflawni gyda strategaeth glir ar gyfer y gweithlu ar gyfer y dyfodol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf, ac sy'n nodi cynnig dysgu a datblygu cydgysylltiedig.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn arwain ar gynllun newydd ar gyfer gwasanaeth sifil Cymru, LIC 2025, sy'n canolbwyntio ar themâu allweddol megis gwerthoedd ac ymddygiadau'r gwasanaeth sifil; digidol, data a thechnoleg; cydweithio â phartneriaid; a gwella effeithlonrwydd. Yn ystod yr adolygiad hwn, clywais adborth cadarnhaol am y ffordd y mae strategaeth newydd y gwasanaeth sifil (LIC 2025) yn cael ei datblygu ar y cyd â staff. Dywedir wrthyf fod cyfleoedd lluosog i roi mewnbwn: o ddigwyddiad i'r holl sefydliadau dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol gyda chyfranogiad fy Nirprwy Gomisiynydd, i weithdai, ac arolygon. Rwyf hefyd wedi clywed llawer o sylwadau cadarnhaol am ddefnyddioldeb clywed arweinwyr yn trafod y Ddeddf yng nghyd-destun LIC 2025, sydd eto'n tynnu sylw at bwysigrwydd uwch weision sifil i fod yn ysgogi'r newid drwy godi ymwybyddiaeth ac ailddatgan eu hymrwymiad i'r Ddeddf mewn prosiectau amrywiol.

Yn galonogol, mae ystod o gyfleoedd dysgu mwy organig a manwl yn cael eu defnyddio, fel sesiynau cinio a dysgu adrannol, a rhwydweithiau newid ymddygiad. Mae rhai o'r cyfleoedd hyn yn dangos addewid gwirioneddol, gan fynd y tu hwnt i'r dull traddodiadol o 'hyfforddi' ac annog rhannu dysgu ac arfer da rhwng timau.

Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad o'r Ddeddf

Canfyddiad:

Mae yna ymdeimlad o falchder a brwdfrydedd yn y ddeddfwriaeth flaengar hon, ond mae rhywfaint o anghysondeb rhwng lefel brwdfrydedd ac ymrwymiad a dealltwriaeth fanwl o gymhwysiad.

Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth

Pan gyflwynwyd y Ddeddf, gwnaed llawer i hybu a chodi ymwybyddiaeth, megis creu arfau cyfathrebu a brandio, pecynnau hyfforddi sylfaenol a chynnal digwyddiadau i bobl ddod at ei gilydd i drafod a dysgu am y ddeddfwriaeth, ei chymhwysiad mewn gwahanol gyd-destunau, a sut mae'n wahanol i ddyletswyddau blaenorol i 'hyrwyddo' cynaliadwyedd.

Er nad yw'r dull a ddefnyddiwyd i roi'r Ddeddf ar waith ym mlynyddoedd cynnar ei bodolaeth wedi bod yn destun ystyriaeth fanwl yn yr adolygiad hwn, rwyf wedi dod i'r casgliad bod diffyg arweinyddiaeth wleidyddol ynghylch gweithredu'r Ddeddf yn y blynyddoedd cynnar. Byddwn, felly, yn nodweddu'r dull cynnar o weithredu fel un fecanistig, gan adlewyrchu i raddau helaeth sut y byddech yn disgwyl i sefydliad mwy traddodiadol ymateb i'r angen i gyfleu gofynion deddfwriaethol newydd i weithlu mawr.

Yn 2017, ysgrifennodd Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd, at yr holl swyddogion gan ddweud:

"Fel Ysgrifennydd Parhaol, rwy'n cymryd ein hymrwymiad sefydliadol i ffyrdd cynaliadwy ac effeithiol o weithio drwy weithredu'r Ddeddf o ddifrif. Er bod y Ddeddf yn ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn cyfrannu at weledigaeth a rennir o lesiant Cymru, fel sefydliad, mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ein herio o ran sut rydym yn gwneud penderfyniadau."

Er mwyn cefnogi'r gwasanaeth sifil i roi gofynion newydd y Ddeddf ar waith, sefydlodd Shan Morgan y Fenter Diogelu'r Dyfodol, Rhaglen Cyflawni Ymgysylltu'r Dyfodol, Gwobrau Cenedlaethau'r Dyfodol, set o gwestiynau her i brofi cymhwysiad y Ddeddf ar lefel Bwrdd Llywodraeth Cymru, a Hyrwyddwr Bwrdd i eistedd ar Fwrdd Llywodraeth Cymru (gweler Pennod 2 ar Broses am ragor o wybodaeth). Mae rhinwedd da i rai o'r mecanweithiau hyn yn fy marn i ond nid yw pob un ohonynt wedi'u defnyddio'n effeithiol ac yn bwysicach fyth nid ydynt ar hyn o bryd yn rhan o strategaeth gyffredinol ar gyfer y gweithlu a all gefnogi gweithrediad y Ddeddf. Ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru 2025, fodd bynnag, mae strategaeth gweithlu tymor hwy yn cael ei datblygu ar hyn o bryd sy'n rhoi cyfle pwysig i ystyried y sgiliau y bydd eu hangen ar y gwasanaeth sifil yn y dyfodol ac i ymgorffori cynnig dysgu a datblygu cynhwysfawr a chydgysylltiedig o amgylch y Ddeddf.

Cyfathrebu ac Iaith

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y Ddeddf mewn amrywiol ddeunyddiau cyfathrebu mewnol ac allanol ac mae hefyd wedi diweddaru rhai o'i hadnoddau ar y Ddeddf (fel y canllaw hanfodion). Mae swyddogion wedi dweud wrthyf, fodd bynnag, fod angen gwelliannau o hyd i ddyfnhau dealltwriaeth a gwreiddio'r Ddeddf ymhellach ac i gyfleu'n gliriach y disgwyliadau ar wahanol broffesiynau a rolau o fewn y gwasanaeth sifil. Mae hefyd angen ailgysylltu â Gweinidogion a gweision sifil a'u hatgoffa o'r diben, y dyletswyddau a'r camau ymarferol sy'n ofynnol gan y Ddeddf, i gynnal a gwella momentwm tuag at weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy a chyflawni'r canlyniadau y mae'n eu rhagweld. Ategwyd y pryder hwn gan gyn-fyfyrwyr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, a amlygodd po bellaf i lawr hierarchaeth Llywodraeth Cymru, y lleiaf y mae pobl yn deall y Ddeddf. O ganlyniad i hyn, mae risg bod y staff gweithredol a rheng flaen sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf yn aneglur ynghylch dyletswyddau'r sefydliad.

Mae angen i'r Llywodraeth hefyd fod yn gliriach ynghylch sut mae'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n cynnwys y camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant, yn cysylltu nôl â chyflawni eu dyletswydd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant. Nid yw'r Ddeddf yn ceisio pennu naratif gwleidyddol, ond mae'n bwysig i'r rhai sy'n ei gweithredu ddeall sut y defnyddir blaenoriaethau gwleidyddol a'r Rhaglen Lywodraethu i gyflawni'r ddyletswydd statudol i osod amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni. Mae angen pwysleisio'r cysylltiadau rhwng y Ddeddf a'r Rhaglen Lywodraethu yn gyson os yw swyddogion a'r sector cyhoeddus ehangach i gyflawni'n gyson yn erbyn y nodau hirdymor yn eu cyfanrwydd yn hytrach na'r llaw-fer a welir mewn naratif gwleidyddol. Mae 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach', er enghraifft, yn darparu naratif byrrach a mwy hygyrch ar gyfer cyfleu blaenoriaethau i'r cyhoedd, ond nid yw ynddo'i hun yn cysylltu'n ôl yn gynhwysfawr â'r diffiniadau a'r derminoleg statudol a gyflwynwyd gan y Ddeddf. Nid oes diffiniad statudol o 'gryfach', er enghraifft, ac felly, efallai y bydd dryswch ynghylch blaenoriaethau a gofynion penodol amcanion hirdymor trosfwaol a chynhwysfawr y Ddeddf, sydd y tu hwnt i faniffesto gwleidyddol neu Raglen Lywodraethu.

"...mae'n ymwneud â chynnal momentwm hefyd, ar y Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]... roedd cryn dipyn o waith wedi'i wneud... o ran cyfleu'r neges i'r gwasanaeth sifil ynglŷn â beth yw'r Ddeddf, beth mae'n ei wneud, beth mae'n ei olygu iddyn nhw. ...mae'n debyg... mae yna bwynt yn y dyfodol agos lle...mae'n ...amser i ni... fynd allan a chael... ymgyrch arall...mae'n debyg ein bod ni'n cyrraedd y pwynt lle mae grŵp o weision sifil nad ydynt wedi cael hynny'n rhagweithiol. Ac rwy'n meddwl cymaint ag unrhyw beth fod hyn oherwydd y pandemig Coronafeirws... rwy'n amau y byddai rhaglen barhaus wedi bod, ond... o bosibl nid oedd yn brif [flaenoriaeth]"

Gwas sifil Llywodraeth Cymru

Mae hwn yn angen sylfaenol ond hanfodol bwysig. Mae'r Ddeddf yn gofyn am drawsnewid mawr yn y ffordd y mae'r llywodraeth a gweision sifil yn gweithio ynddi a'r angen am gyfathrebu clir parhaus, esboniad ac arddangosiad o gymhwysiad ymarferol. Dywedodd swyddogion allweddol Llywodraeth Cymru wrthym fod ymdrechion wedi'u gwneud i wella'r cyfathrebu ynghylch y Ddeddf er mwyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth ohoni y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth. Mae blog 'Llunio Dyfodol Cymru' yn enghraifft o'r ymdrechion hyn.

Mae cyfathrebu gwell a pharhaus yn bwysig, ond dylai Llywodraeth Cymru hefyd fod yn ofalus i beidio â thybio bod ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn ddigon, a bod hyn yn trosi'n awtomatig i ddehongliad cywir o'i gofynion. Drwy gydol y chwe blynedd diwethaf fel Comisiynydd ac yn ystod yr adolygiad hwn rwyf wedi gweld a chlywed enghreifftiau lluosog o ddehongli'r Ddeddf a'i nodau'n anghywir drwy ddatblygu polisi o fewn cyfathrebiadau mewnol ac allanol y llywodraeth. Rwyf hefyd wedi gweld cyfeiriadau cyfyngedig at y Ddeddf mewn llythyrau cylch gwaith ar gyfer cyrff a noddir gan y llywodraeth, yn y cylch gorchwyl ar gyfer grwpiau a byrddau cynghori ac mewn rhyngweithio o ddydd i ddydd rhwng swyddogion y llywodraeth a phartneriaid allanol.

Mae hyn wedi eistedd ochr yn ochr ag ystod o iaith wahanol a ddefnyddir yn fewnol ac yn allanol i ddisgrifio ei ofynion a all arwain at ddiffyg eglurder pwrpas. Mae'r Llywodraeth yn dadlau bod cymhwyso'r Ddeddf yn ymhlyg yn ofynnol ond yn sgil fy mhrofiad o ryngweithio â byrddau, grwpiau a chyrff hyd braich yw, heb gyfeiriad clir a phendant, does dim dal os ydyw'n gweithio neu beidio ac mae alinio'r gwaith â'r Ddeddf yn dibynnu ar wybodaeth a diddordeb y rhai dan sylw. Yn gyferbyniol, rwyf wedi gweld enghreifftiau da o gyfeirio'n benodol at y Ddeddf o ran cyfeiriadau, er enghraifft Grŵp Cynghori ar y Gyllideb o ran Gwelliant ac Effaith Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Teithio Llesol. Nid yw eraill, fel y Panel Adolygu Ffyrdd a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, wedi cyfeirio'n benodol at y Ddeddf ond yn cyfeirio at genedlaethau'r dyfodol ac yn defnyddio fframwaith y Ddeddf, ac nid yw eraill (er enghraifft, Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw a'r Panel Cynghori ar Sgiliau Creadigol) yn cyfeirio o gwbl at y Ddeddf na chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r canfyddiad hwn er gwaethaf archwiliad mewnol yn amlygu'r anghysondeb hwn a'r angen i'r llywodraeth ymateb.

Mae cyfeiriadau a manylion am y Ddeddf hefyd yn amrywio mewn gwahanol ddogfennau allanol gyda rhai, fel y Strategaeth Drafnidiaeth, Llwybr Newydd, a'r Strategaeth Wastraff, Mwy Nag Ailgylchu, yn nodi'n glir sut y maent wedi ystyried gwahanol elfennau o'r Ddeddf. Mae eraill, fel y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol diweddar i Gymru (Hydref 2022) yn cyfeirio'n fyrbwyll at y Ddeddf a nodau 'Cymru Iachach a Chydnerth'. Nid yw'n egluro, fodd bynnag, ei berthnasedd i Gymru Gydnerth, a allai olygu, fel sy'n digwydd yn aml, bod y swyddogion yn deall bod y nod hwn yn ymwneud â gwydnwch personol yn hytrach na gwydnwch ecosystemau.

Mae Gwobrau Llywodraeth Cymru yn cynnwys Gwobr Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n edrych ar y prosiectau sydd wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio orau. Er y dylid gwella'r meini prawf ar gyfer y dyfarniad hwn i gynnwys yr egwyddor integreiddio'n well, mae amlygu enghreifftiau da o ble mae'r Ddeddf yn cael ei defnyddio (fel y Strategaeth Drafnidiaeth, y Strategaeth Wastraff a'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd yng ngwobrau'r llynedd) yn ddefnyddiol ac yn gam da tuag at gynyddu dealltwriaeth.

Er mwyn symud tuag at gam nesaf y gweithredu, dylai'r llywodraeth geisio cryfhau, egluro a bod yn eglur yn ei chyfathrebu ynghylch y Ddeddf yn fewnol ac yn allanol, a chydnabod bod angen i'r cyfathrebu hwn fod yn barhaus.

Fel rhan o'r daith ddysgu hon ac i ddangos arweiniad, dylai'r llywodraeth geisio bod yn fwy agored yn ei chyfathrebu ar y Ddeddf, nid yn unig o ran amlygu arfer da ond hefyd yn rhannu'n fewnol ac yn allanol yr achosion lle nad yw pethau efallai wedi gweithio allan, a sut y disgwylir i lywodraeth flaenoriaethu oherwydd ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Fel y mae'r canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn disgrifio:

> *"Nod y (dull hunanasesu ac asesiad perfformiad panel) yw adeiladu ar ddiwylliant lle mae cynghorau'n herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus, yn gofyn cwestiynau am sut y maent yn gweithredu, ac yn ystyried arfer gorau yng Nghymru ac yn ehangach, a'i gefnogi... Fy uchelgais yw cael diwylliant lle mae pob rhan o gyngor bob amser yn anelu at wneud yn well ym mhopeth a wnânt, waeth pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Bydd hunanasesiad gonest ac agored ar bob lefel o gyngor yn rhan sylfaenol o hyn."*
>
> **Rhagair gan Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd**

Gall gwella eglurder a thryloywder o ran lle mae'r llywodraeth ar y daith hon helpu i gynyddu ymrwymiad a gweithredu fel dysgu i gyrff cyhoeddus eraill, boed hynny drwy eu hadroddiad blynyddol statudol neu mewn rhyw ffurf arall. Mae gwerth bod yn agored gyda heriau yn ogystal â llwyddiannau. Er bod yr ymateb i'r adolygiad hwn wedi bod yn gadarnhaol hyd yma, bydd yn gam pwysig a heriol i'r llywodraeth adrodd yn llawn ar gynnydd a chanlyniadau Cynllun Dysgu a Gwelliant Parhaus Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dealltwriaeth yn erbyn Cymhwysiad

Newid diwylliannol yw un o'r ymrwymiadau anoddaf i unrhyw sefydliad, heb sôn am un mor aml-haenog ac ymatebol â Llywodraeth Cymru. Roedd gwreiddio'r Ddeddf yng ngwaith ac iaith y sefydliad o ddydd i ddydd bob amser yn mynd i fod yn un o elfennau mwyaf heriol y daith hon. Mae codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, tra hefyd yn cynnal a chynyddu eu brwdfrydedd am yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, yn gamp ynddi'i hun ond yn un cam yn unig o'r daith. Dylai'r cam nesaf fod yn pontio'r bwlch rhwng ymwybyddiaeth a gweithrediad y Ddeddf.

Mae tystiolaeth o'r adolygiad hwn a sylwadau gan randdeiliaid wedi cadarnhau'r sylwadau a gefais dros y chwe blynedd diwethaf, er bod lefel uchel o ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r Ddeddf yn gyffredinol, enghreifftiau da o weithredu ac ymdeimlad o arweinyddiaeth o'r newydd i yrru hyn ymhellach, mae bylchau o ran deall gofynion penodol i roi'r Ddeddf ar waith ac mae'r bylchau hyn yn fwy mewn rhai rhannau o'r llywodraeth.

Yn galonogol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio adolygu pa mor dda mae staff eu hunain yn deall gofynion y Ddeddf ac wedi cynnwys cwestiynau ar hyn yn eu cwestiynau yn yr Arolwg Pobl. Mae hyn yn rhoi syniad sylfaenol o lefel dealltwriaeth y pum ffordd o weithio ymhlith gweision sifil; sy'n ddefnyddiol gan y gall dynnu sylw at feysydd y gallai fod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol ar bobl.

Nododd y data diweddaraf sydd ar gael (Arolwg Pobl 2020) fod gan tua 70% o swyddogion lefel uchel o ymwybyddiaeth o bob un o'r pum ffordd o weithio. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson ar draws y llywodraeth. Yn gyffredinol, adroddodd swyddogion polisi lefelau uwch o ymwybyddiaeth, a nododd y rhai sy'n gweithio mewn meysydd y tu allan i'r proffesiwn polisi lefel is o ymwybyddiaeth.

> "Rwy'n cytuno ag archwilio mewnol... bod swyddogion y proffesiwn nad ydynt yn ymwneud â pholisi wedi chwarae llai o ran... mae ganddynt ddealltwriaeth lai aeddfed o'r Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]; hyd yn hyn, maent wedi sylweddoli llai bod y Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] yn cyfeirio atynt."
>
> **Gwas sifil Llywodraeth Cymru**

Er y gall hyn ar y naill law ymddangos yn sefyllfa amlwg ac efallai derbyniol, mae'n bwysig nodi bod y Ddeddf yn berthnasol nid yn unig i lunio polisïau, ond i'r meysydd corfforaethol o fewn y llywodraeth sy'n ei gefnogi, gan gynnwys caffael, cynllunio ariannol, rheoli asedau, a chynllunio gweithlu. Mae hwn felly'n faes pwysig i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef drwy becyn cymorth cyfathrebu a gweithredu newydd, ac yn ddelfrydol, sy'n berthnasol i'r sector/proffesiwn ar gyfer swyddogion sy'n gweithio y tu hwnt i'r proffesiwn polisi.

I'r rhai sy'n gweithio yn y proffesiwn polisi, mae'r dystiolaeth a welais yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r Arolwg Pobl o ran bod 'ymwybyddiaeth' yn uchel ond yn llai felly o ran 'dealltwriaeth'. Canfûm fod swyddogion yn gyffredinol yn ymwybodol o'r Ddeddf, ei nodau, a phum ffordd o weithio. Er bod amrywiaeth ar draws gwahanol adrannau a swyddogion, gan gynnwys rhai enghreifftiau rhagorol o gymhwyso (gweler yr astudiaeth achos), pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio beth oedd atal yn eu barn nhw neu sut yr oeddent wedi defnyddio tueddiadau hirdymor yn eu gwaith polisi, dim ond rhai oedd yn gallu rhoi esboniadau ac enghreifftiau clir.

Mae adroddiad archwilio mewnol diweddar gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r canfyddiad hwn, gan nodi pan ddaw'n fater o gymhwyso yn hytrach nag ymwybyddiaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a pum ffordd o weithio, fod lefel uwch o staff wedi nodi anawsterau a dywedodd rhai mai dim ond rhai o'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu cymhwyso yn eu gwaith.

Astudiaeth Achos: Cyfarfodydd Trafodol Gweinidogol, Adran Drafnidiaeth

Pwrpas:

Wedi'i sefydlu ym mis Ionawr 2022, mae hwn yn ofod pwrpasol i brofi syniadau polisi gyda'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, gan ganiatáu her adeiladol, asesu'r sylfaen dystiolaeth, profi llwyddiant cynigion, ac egluro metrigau gwerthuso. Mae'r rhain yn cael effaith uniongyrchol ar bolisi ac yn rhan angenrheidiol o'r broses llunio polisi, nid yn nodwedd bonws. Dywedwyd, os na fydd y cyfleoedd hyn yn digwydd, y gallant yn aml oedi datblygiad polisi. Fe'u cynhelir yn fras bob mis, ac fel arfer maent yn para 60-90 munud. Cynhyrchir papur paratoi ar gyfer y Dirprwy Weinidog, yn amlinellu'r data a'r dystiolaeth y tu ôl i gynigion posibl.

Aelodaeth:

Yn amrywio yn dibynnu ar y pwnc. Yn nodweddiadol, mae Dirprwy Gyfarwyddwyr ac uwch arweinwyr polisi yn mynychu'n gyntaf, yna daw ffrindiau allanol beirniadol fel Iechyd Cyhoeddus Cymru i mewn. Fel rheol, nid oes mwy nag wyth o bobl yn mynychu i gadw ffocws y drafodaeth.

Y Ddeddf: Heb ei chyfeirio'n benodol ond mae agweddau ohoni'n gyson e.e. meddwl tymor hir. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ethos y mae'r Strategaeth Drafnidiaeth yn ei alinio â'r Ddeddf – o gael prawf straen egnïol ar gyfer yr aliniad hwn – ac felly mae angori trafodaeth drwy lens y Strategaeth yn rhoi'r Ddeddf mewn cyd-destun ymarferol.

Effaith ar bolisi:

Rhoddwyd y gorau i dreialu bysiau flexi mewn ardaloedd gwledig, gan y penderfynwyd mai dim ond tystiolaeth o lwyddiant mewn amodau penodol y mae'r rhain yn ei darparu a barn fwy cyfannol o'r hyn oedd yn gweithio sydd ei angen. O ganlyniad, mae'r ffocws wedi symud i werthuso'r dystiolaeth o'r dulliau trafnidiaeth wledig sy'n gweithio o'u huwchraddio i lefel ranbarthol a chenedlaethol ehangach, ac i ystyried dulliau a thechnolegau trafnidiaeth amgen (e.e. cerbydau trydan) tra'n cynnal hygyrchedd.

Gwelliant Parhaus:

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried sut y caiff y rhain eu strwythuro a'u cynnwys yn y broses ehangach o lunio polisi. Mae'r agweddau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys: pa fath o drafodaethau treigl sydd eu hangen; pa ffrindiau beirniadol fyddai'n dod â gwerth; sut gallai'r rhain fod yn hyblyg o ran ffocws (e.e., yn ddigon ystwyth i addasu i ddatblygiadau adweithiol a blaenoriaethau sy'n newid). Mae aelodau'r tîm hefyd yn awyddus i gynnal cyfarfodydd cyn-ddisgyrsiol pob pythefnos, gan ddod â'r holl arweinwyr polisi ynghyd i wella integreiddio. Byddwn yn annog y llywodraeth i nodi cyfleoedd i ddod â thimau polisi eraill i'r trafodaethau hyn.

Yn ystod yr adolygiad hwn, awgrymodd rhai uwch swyddogion nad oes angen i bob gwas sifil gael yr un lefel o ddealltwriaeth o'r Ddeddf, a bod disgwyliadau gwahanol yn dibynnu ar dimau a hynafedd. Rwy'n dueddol o gytuno, fodd bynnag, mae'n amlwg i mi, os yw'r llywodraeth am wreiddio'r Ddeddf yn llawn yn yr hyn y mae'n ei wneud a sut y mae'n ei wneud, yna mae angen o leiaf lefel sylfaenol o ddealltwriaeth ar bob swyddog. At hynny, mae angen barn glir ynghylch pwy sydd angen gwybod beth, sut y cânt eu cefnogi i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth honno a sut orau i gyflawni hyn.

> *"Ac efallai y byddwn ni'n dod yn ôl at ymwybyddiaeth o'r Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] i lawr drwy'r sefydliad oherwydd byddwn i...yn synnu'n fawr pe baech chi'n dod o hyd i unrhyw un, mewn... arweinyddiaeth ganol i swydd uwch arweinyddiaeth yn y sefydliad, nad oedd ar draws egwyddorion craidd Deddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] a'r ffyrdd o weithio. Rwy'n cael y hwnnw wedi'i chwarae yn ôl ataf yn rheolaidd, ond efallai'n wir, wrth i chi ddod i lawr mewn math o orchmynion batio yn yr hierarchaeth graddau, nad yw ymwybyddiaeth mor gryf."*
>
> ***Gwas sifil Llywodraeth Cymru***

Yn seiliedig ar dystiolaeth gan rai swyddogion sydd wedi nodi eu bod yn llai hyderus wrth gymhwyso rhai o'r ffyrdd o weithio er enghraifft, credaf fod rhywfaint o anghysondeb rhwng ymwybyddiaeth a chymhwyso – mae ymwybyddiaeth, brwdfrydedd ac ymrwymiad yn uchel ond mae dealltwriaeth o sut i gymhwyso gwahanol elfennau'r Ddeddf yn ymarferol yn is mewn rhai rhannau o'r llywodraeth. Nid yw hynny i dynnu sylw na bychanu'r newidiadau sylweddol yr wyf wedi'u gweld ym mhrosesau llunio polisïau'r llywodraeth lle mae'r Ddeddf wedi'i defnyddio a'i rhoi ar waith yn weithredol, ond mae'n rhaid mai'r cam nesaf yn nhaith y llywodraeth yw manteisio ar yr enghreifftiau da hyn a'u defnyddio i adeiladu pont rhwng brwdfrydedd, ymrwymiad a chymhwysiad, gan gyrraedd yn benodol rannau o'r llywodraeth sydd wedi gweld hyn yn llai fel eu busnes craidd neu lle mae bylchau mewn dealltwriaeth lawn wedi'u nodi. Nid yw'n gam hawdd, ond mae'n un angenrheidiol i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei defnyddio fel fframwaith arweiniol o amgylch popeth y mae llywodraeth yn ei wneud.

Adeiladu Galluoedd

Canfyddiad:

Mae llu o ddeunyddiau dysgu o amgylch y Ddeddf – er bod rhywfaint o ddeunydd yn dda, dylai Llywodraeth Cymru geisio deall yn well beth sy'n gweithio ac adeiladu ar ddulliau arloesol sy'n cael eu mabwysiadu mewn rhai rhannau o'r llywodraeth.

Ymgorffori Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae ymrwymiad i weledigaeth y Ddeddf, ei nodau llesiant a'i ffyrdd o weithio yn cael eu cefnogi fwyfwy a gellir eu gweld yn ymwybyddiaeth a gwerthoedd y gwasanaeth sifil. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae iaith y Ddeddf (er ei bod weithiau'n cael ei mynegi mewn gwahanol ffyrdd) wedi'i chlywed gan arweinyddiaeth wleidyddol a sefydliadol ac mae'n amlwg yn trosi i ffyrdd newydd o weithredu o fewn y gwasanaeth sifil. Mae'r iteriad diweddaraf o'r gwerthoedd hyn a'r hyn y maent yn ei olygu i weision sifil i'w weld trwy weledigaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer Llywodraeth Cymru 2025 – sgwrs y mae'n ei harwain yn y sefydliad.

Mae hon yn ddatblygiad pwysig sy'n parhau i ymgorffori egwyddorion y Ddeddf yn ymddygiadau sylfaenol y gwasanaeth sifil. Er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn troi'r gwerthoedd hyn yn gamau gweithredu ac yn mynd y tu hwnt i ddull mecanistig wrth wreiddio'r Ddeddf, rhaid i'r sefydliad hefyd sicrhau bod y galluoedd sydd eu hangen ymhlith swyddogion yn cael eu deall bod dysgu a datblygu yn effeithiol a bod angen rhoi amser, lle ac anogaeth i weision sifil gymryd rhan, dysgu a gwella sgiliau ar y Ddeddf.

> *"Sicrhau bod gan weithwyr yr adnoddau angenrheidiol i ymgysylltu â'r newid cynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys amser, gwybodaeth, cymorth moesol yn ogystal ag adnoddau technegol ac ariannol (Markos a Sridevi, 2010). Unwaith y bydd gweithwyr yn cael eu hannog i fentro a chyfrannu'n unigol at weledigaeth y sefydliad o ran cynaliadwyedd, mae'n bwysig rhoi'r adnoddau iddynt ymgysylltu â chynaliadwyedd. Hebddynt gall cymhelliant ac ymrwymiad gweithwyr fod yn anodd neu gall leihau mewn amser."*
>
> Ysgogi newid diwylliant sefydliadol ar gyfer cynaliadwyedd,
> **Pietro Antonio Negro ac Anamaria Vargas, 2019**

Rwyf wedi arsylwi a chlywed am amrywiaeth o ffyrdd arloesol o gynyddu galluoedd ac arbenigedd a arloeswyd mewn gwahanol adrannau a thimau.

Sesiynau cinio a dysgu misol Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, lle mae gwahanol dimau o fewn yr adran yn dod at ei gilydd i ddysgu am feysydd o ddiddordeb cyffredin. Mae enghreifftiau'n cynnwys academydd allanol yn rhoi sgwrs a sesiynau Cwestiwn ac Ateb ynghylch cronni credydau a fframweithiau trosglwyddo, a'r rolau y gall y rhain eu chwarae mewn dysgu gydol oes. Rwy'n ystyried hwn yn ddull effeithiol ac arloesol o ddod o hyd i amser a lle i annog trafodaethau beirniadol rhwng timau ac i roi amser a lle iddynt ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd.

Mae UX Lab Community yn rhan o fenter Diogelu'r Dyfodol, a'i nod yw bod yn ysgogydd a galluogwr ar gyfer newid diwylliannol ehangach i helpu i wreiddio'r pum ffordd o weithio a chynyddu cyfranogiad dinasyddion. Os caiff ei gyflwyno, bydd yn helpu gweision sifil i uwchsgilio, darparu gwasanaeth mewnol a chynyddu gallu sefydliadol i gynnwys pobl yn y broses llunio polisi a datblygu gwasanaethau. Rwy'n croesawu'r dull hwn ond credaf y gellir ei ddatblygu ymhellach i fod yn bwynt ar gyfer syniadau a safbwyntiau'r cyhoedd er mwyn cryfhau'r broses ddemocrataidd a chynyddu cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau.

Drwy gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, mae sawl tîm ar draws y llywodraeth wedi anfon cynrychiolwyr i uwchsgilio mewn cynaliadwyedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hwn yn gyfle gwych i uwchsgilio pobl ifanc a sicrhau, yn y tymor hir, fod gan y llywodraeth gronfa ehangach o sgiliau ac arbenigedd o fewn ei harweinwyr yn y dyfodol.

Dechreuodd Tîm Tir, Natur a Bwyd o fewn Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig rwydwaith newid ymddygiad - mae cyfarfodydd misol ar agor i unrhyw un ar draws Llywodraeth Cymru sydd â diddordeb mewn gwyddor ymddygiadol a chymdeithasol. Mae hwn yn ddull organig i'w groesawu, dylid ei annog mewn mannau eraill.

Mae sawl adran wedi sôn am sicrhau cymrodyr ymchwil i wneud ymchwil fewnol a helpu i gynyddu capasiti o fewn y sefydliad. Mae hyn yn gadarnhaol gan ei fod wedi dod ag adnoddau a chapasiti ymchwil yn ôl o fewn Llywodraeth Cymru ac wedi lleihau'r angen i roi gwaith ar gontract allanol. Ond hoffwn ddeall hefyd sut y gellir rhannu'r cyfleoedd ymchwil hyn yn rhagweithiol â chyrff cyhoeddus eraill.

Secondiadau yw un o'r ffyrdd pwysicaf o feithrin gallu a chynyddu arbenigedd mewn gwahanol dimau a, lle mae hyn wedi digwydd, fe'i hystyriwyd yn ddefnyddiol ac yn fuddsoddiad da yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae canfyddiad nad yw hwn yn arfer a ddefnyddir yn eang oherwydd pwysau gweithlu a chapasiti, ac weithiau oherwydd canfyddiad os gall y tîm wneud yn dda heb y gwas sifil ar secondiad, efallai bod rôl y gwas sifil yn ddiangen. Mae angen chwalu'r fath ofnau gan mai'r nod ddylai fod i adeiladu gwytnwch, arbenigedd a gallu yn y gwasanaeth sifil cyfan fel y gellir symud pobl o gwmpas yn y pen draw wrth i wahanol anghenion, heriau a blaenoriaethau godi.

Mae gwaith Academi Wales, sy'n gynnig pwysig ar gyfer dysgu a datblygu ar draws y sector cyhoeddus, wedi'i groesawu ac mae swyddogion wedi rhannu bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n arbennig am ei chyfleoedd a'i thrafodaethau wyneb yn wyneb, megis yr Ysgolion Haf a Gaeaf. O'r adolygiad hwn a phrofiad blaenorol o gynghori a gweithio gydag Academi Wales, fodd bynnag, credaf fod cyfleoedd i gryfhau'r cysylltiadau â'r Ddeddf mewn rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir yng nghynnwys y cwrs, deunyddiau hyrwyddo a gwerthusiadau a'u bod yn monitro ac yn asesu effaith eu cynnwys yn well – a sut maent yn gwybod ei fod yn ysgogi'r newid angenrheidiol a gweithrediad y Ddeddf. Deallaf fod Academi Wales yn gweithio ar strategaeth ar hyn o bryd, a fyddai'n darparu cyfleoedd da i fynd i'r afael â rhywfaint o hyn. Bwriedir i hon fod yn strategaeth tair blynedd yn unig, nad yw'n adlewyrchu ffordd hirdymor y Ddeddf o feddwl, a hoffwn weld gwell ystyriaeth i sut mae dogfennau tymor byr o'r fath yn integreiddio â thueddiadau, senarios a gweledigaeth hirdymor, yn ogystal â chysylltiad â strategaeth gweithlu hirdymor Llywodraeth Cymru.

Yn galonogol, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu **'Fframwaith Galluogrwydd Polisi'** newydd sydd â'r nod o gefnogi swyddogion i ddatblygu'r lefel angenrheidiol o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau i roi polisi ar waith yn unol â'r Ddeddf. Mae hwn yn gam pwysig yn nhaith y llywodraeth i ddeall yn well a gweithredu i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol sydd gan wasanaeth sifil y dyfodol, sy'n byw ac yn anadlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n croesawu bod y fframwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â'r math o ymddygiadau a dulliau gweithredu yr wyf wedi'u nodi dros y chwe blynedd diwethaf yn ystod yr adolygiad hwn fel rhai sy'n bwysig i'w gweithredu.

Erys gwaith i gyflwyno'r fframwaith hwn ar draws y sefydliad. Nid yw'n glir sut mae'r ymagwedd hon yn cefnogi'r rhaglen a gynigir gan Academi Wales. Serch hynny, mae'r ymddygiadau a amlinellir yn y fframwaith yn cysylltu'n agos iawn â'r hyn a welaf fel nodweddion hanfodol i wreiddio'r Ddeddf wrth lunio polisïau ac yn darparu pwynt cyfeirio defnyddiol i'r sefydliad wrth gymryd y camau nesaf ar ei daith weithredu.

Fframwaith Gallu Polisi Llywodraeth Cymru o'i gymharu â nodweddion da Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymgorffori'r Ddeddf mewn polisi



Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd o'r farn, er mwyn gwreiddio'r Ddeddf wrth lunio polisïau, bod angen i lunwyr polisi hefyd:

- Cael digon o amser a lle ar gyfer datblygu polisi;
- Cyllid i'w gysylltu â strategaethau;
- Gwerthuso ac ystyried strategaethau blaenorol i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn llywio polisi;
- Gosod cerrig milltir clir i fesur llwyddiant gweithredu.

Lle mae'r ymddygiadau a ddisgrifir yn y Fframwaith Gallu Polisi eisoes yn cael eu defnyddio:

Cynnwys ac ymgysylltu

- Mae Is-bwyllgor Ymgyfraniad o Fforwm Aml-randdeiliaid Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn datblygu cyfres o egwyddorion sy'n seiliedig ar gymryd agwedd greadigol, garedig ac ymarferol at gynnwys. Mae hyn yn canolbwyntio ar sut yn hytrach na beth yw cynnwys ac mae'n pwysleisio egwyddorion megis gwneud gyda pheidio, adeiladu datblygiad perthynas ym mhob gweithgaredd, chwilio am yr hyn sy'n gryf yn hytrach na'r hyn sy'n anghywir a gwerthfawrogi'r hyn sy'n bwysig i bobl.
- Fe wnaeth y tîm sy'n gweithio ar Strategaeth Gwrth-Hiliaeth Cymru gynnwys cyfranogiad ar ddechrau'r broses. Mae'r ddogfen derfynol yn dangos sut y gweithredwyd ar farn. Roedd cyfranogiad yn cynnwys ymarfer dyfodol gyda chymunedau yn dychmygu llwyddiant yn 2030, yn ogystal â pharu mentoriaid cymunedol gyda llunwyr polisi.

Mae angen i enghreifftiau o'r fath o arloesi mewn cyfranogiad gael eu cyfathrebu'n well fel y gall timau eraill gael eu hysbrydoli a'u hymgorffori i archwilio dulliau mwy creadigol o ymgysylltu â rhanddeiliaid. At hynny, mae angen iddynt fod yn gyson ar draws timau gan fod bylchau ar hyn o bryd o ran sut, er enghraifft, y mae'r tîm Prentisiaethau yn cynnwys prentisiaid yn eu gwaith.

Chwilfrydig ac arloesol

- LIC i roi mwy o wybodaeth i ni am luniwr polisi a aeth i fyw mewn lloches i'r digartref
- Unrhyw beth arall?

Hoffwn weld enghreifftiau o'r fath yn cael eu rhannu a'u lluosogi oherwydd ar hyn o bryd, mae fy arsylwadau'n dangos, er bod pocedi o'r fath o arfer gwych, bod diwylliant gwrth risg o hyd yn atal gweision sifil rhag rhoi cynnig ar ddulliau newydd.

Meddwl am y hirdymor

- Yn gynyddol, mae strategaethau a chynlluniau allweddol y llywodraeth, megis y Strategaeth Drafnidiaeth a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y 20 mlynedd i ddod yn y dyfodol, tra bod y Strategaeth Wastraff, Mwy Nag Ailgylchu, yn gosod llwybr a thargedau ar gyfer y 30 mlynedd nesaf, gan fynd â Chymru i 2050.

Mae hyn, fodd bynnag, wedi cael ei gydnabod gan y llywodraeth fel maes lle gallant wneud mwy. Mae adran yn y bennod hon sy'n ymwneud â'r Hirdymor a'r Dyfodol, gallwch ei darllen am ragor o fanylion.

Cydgysylltiedig a Strategol

- Mae gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a Gweinidog yr Economi dîm cyffredin sy'n canolbwyntio'n llwyr ar brentisiaethau, sgiliau, a'r Economi Sylfaenol, gyda'r bwriad bod hyn yn sicrhau bod integreiddio rhwng y ddau bortffolio yn rhan annatod o gynllunio polisi.
- Roedd y Strategaeth Wastraff yn cynnwys asesiad llesiant i ddangos sut mae'n cyfrannu at yr holl nodau llesiant, er enghraifft sut y gall gwastraff helpu i fynd i'r afael â materion mewn meysydd fel unigrwydd, a chydlyniant cymunedol.

Fodd bynnag, nid yw integreiddio da yn gyffredinol, ac rwyf hefyd wedi gweld enghreifftiau polisi nad ydynt yn sôn am amcanion llesiant nac yn ystyried amcanion a nodau llesiant y tu allan i'r maes uniongyrchol sy'n cael ei drafod. Gan ystyried amcanion llesiant, yn sefydliadol ac fel arall, mae hyn yn allweddol i'r ffordd integreiddio o weithio, hoffwn weld mwy o bwyslais ar hynny.

Yn adeiladol heriol

- Mae'r adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn cynnal sesiynau her ar wahanol feysydd gwaith i helpu i integreiddio ymdrechion rhwng gwahanol dimau o fewn yr adran.
- Mae'r adran Drafnidiaeth yn cynnal cyfarfodydd Gweinidogol Disgyrsiol i brofi syniadau polisi gyda'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, herio'n adeiladol, asesu'r sylfaen dystiolaeth, profi llwyddiant cynigion, ac egluro metrigau gwerthuso.

Mae'r ddwy enghraifft hyn yn ddulliau a ddatblygwyd yn organig i helpu gydag integreiddio a sicrwydd trwy her adeiladol. Mae angen i Lywodraeth Cymru alluogi ac annog mwy o arferion tebyg mewn timau eraill.

Cydweithredol

- Rwyf wedi gweld enghreifftiau lluosog o gydweithio cynyddol o fewn Llywodraeth Cymru mewn llawer o feysydd megis y Polisi Trafnidiaeth, Sero Net ac ati.
- Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn enghraifft wych arall o gydweithio yn cael ei brif ffrydio.
- Cyd-gynhyrchwyd yr iteriad diweddaraf o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, a chafwyd llawer o adborth da am hynny.

Mae'n ymddangos bod y ffordd hon o weithio wedi'i datblygu'n well na rhai o'r lleill ac, rwyf wedi clywed adborth da gan randdeiliaid, cyrff cyhoeddus a chynrychiolwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod cydweithio â Llywodraeth Cymru yn well nag erioed o'r blaen.

Gweithredu i atal problemau

- Mae wedi bod yn anodd canfod sut mae'r dull atal o weithio yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio. Rwyf wedi clywed gan dimau lluosog ei fod yn un o elfennau anoddaf y Ddeddf.
- Yn galonogol, dywedodd y tîm Prentisiaethau wrthyf eu bod wedi cynnal gweithdy ar yr hyn y mae atal yn ei olygu o fewn prentisiaethau ond mae angen i ddulliau o'r fath gael eu cyfleu'n glir yn y camau gweithredu a'r polisi sy'n dod allan ar ddiwedd y broses.

Mae hon yn her a welwyd mewn cyrff cyhoeddus eraill. Mae angen rhannu mwy o ganllawiau ymarferol ac enghreifftiau o arfer da i helpu gweision sifil i ddefnyddio'r ffordd hon o weithio yn well.

Gall cyfleu'r diffiniad o atal yn well, ynghyd ag enghreifftiau ymarferol, gryn dipyn i egluro'r ffordd hon o weithio.

Offer i yrru'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau angenrheidiol

Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gweithlu sydd i'w chyhoeddi yn 2022-23. Er nad oes strategaeth glir ar gyfer y gweithlu ar waith ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o offer yn cael eu defnyddio i gynyddu sgiliau a gwybodaeth pobl am y Ddeddf.

Mae pecyn sefydlu a gweithdy (Tuag at Ddyfodol Gwell) wedi'u datblygu i ddarparu gwybodaeth sylfaenol am y Ddeddf ond nid yw o reidrwydd yn cefnogi swyddogion i roi'r Ddeddf ar waith yn ymarferol. Nid yw'r gweithdy'n cyfeirio at sawl elfen allweddol o'r Ddeddf, megis yr amcanion llesiant, ac adnoddau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Mae'n ymddangos mai dyma'r unig hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf ac nid yw'n glir i mi sut y mae swyddogion a gyflogir eisoes yn Llywodraeth Cymru yn cael eu mandadu i gymryd rhan yn rhagweithiol yn yr hyfforddiant hwn. Dylid adolygu'r cynnwys a'r cyfranogiad i gynnwys mwy o fanylion am wahanol elfennau'r Ddeddf ac i ddarparu arweiniad mwy ymarferol ar y defnydd o'r pum ffordd o weithio, yn enwedig yn y saith maes corfforaethol o newid a nodir yng Nghanllawiau Statudol y Ddeddf.

Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ar-lein gan gynnwys y rhai sydd i'w cael ar wefannau'r Labordy Dysgu ac Academi Wales, sy'n cynnig adnoddau ac awgrymiadau cyflym ar y Ddeddf, sydd ar gael i'r holl staff eu cyrchu. Rwy'n croesawu'r dull agored o gyhoeddi'r adnoddau hyn i eraill eu defnyddio y tu hwnt i Lywodraeth Cymru a byddwn yn annog y dull hwn ymhellach. Mae'r dull cydweithredol o ddylunio rhai o'r adnoddau, fel yr awgrymiadau cyflym, gyda chydweithwyr sydd wedi'u defnyddio'n ymarferol hefyd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r adnoddau hyn yn eistedd ar lwyfannau lluosog, a all weithiau achosi dryswch a gallai system ganolog wella eglurder i staff.

Y llynedd, cyflwynodd y llywodraeth gynnig hyfforddiant polisi newydd:

Cynnig hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar gyfer llunwyr polisi

Dysgu Polisi Ar-lein - ar gael ym mis Mawrth 2021

Wedi'i anelu at: Staff dirprwyedig lefel ganol (Swyddog Gweithredol Uwch i Radd 7)

Yn cynnwys: 8 modiwl, sy'n cyfeirio at y Ddeddf a'i helfennau.

Gwnaeth y modiwl Llunio **Polisi mewn Cyd-destun Cymreig** argraff arbennig arnaf ac rwy'n meddwl bod hwn yn dda iawn.





Fodd bynnag, dim ond 67 o weision sifil allan o ~3,400 rhwng graddau Swyddog Gweithredol Uwch a Gradd 7 (~2%) a gwblhaodd y modiwl hwn yn 2021/22

Polisi Basecamp - ar gael ym mis Mawrth 2021

Wedi'i anelu at: Uwch Weision Sifil (Dirprwy Gyfarwyddwr ac uwch)

Yn cynnwys: 6 modiwl, sy'n cyfeirio at y Ddeddf a rhai o'i helfennau.

Nid oes yr un o'r modiwlau hyn yn ymdrin â'r Ddeddf mor drylwyr â'r modiwl Llunio Polisi mewn Cyd-destun Cymreig.

Cwblhaodd 36 o uwch weision sifil o ~166 rhwng (~22%) yr hyfforddiant hwn yn 2021/22.

Nid yw'r llywodraeth wedi asesu effeithiolrwydd y cymorth hwn. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion y siaradwyd â hwy wrthyf eu bod yn teimlo ei fod yn brofiad defnyddiol, yn enwedig yr hyfforddiant Policy Basecamp ar gyfer dod ag uwch weision sifil Llywodraeth Cymru ynghyd.

Ar ôl edrych ar y gwahanol fodiwlau, rwyf o'r farn bod y deunyddiau, sydd wedi ymwreiddio'r Ddeddf, yn enwedig y modiwl 'Llunio Polisi yn y cyd-destun Cymreig', yn ddefnyddiol gan ei fod yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf yn gywir, mae'n ddeniadol ac yn gallu ysbrydoli newid. Nid yw hyn yn orfodol ar hyn o bryd, fodd bynnag, a dim ond cyfran fach o weision sifil ac uwch swyddogion sydd wedi'i gwblhau.

Yn fy marn i, mae'r modiwl Llunio Polisi yn y cyd-destun Cymreig yn hyfforddiant sylfaenol hanfodol i unrhyw un yn y proffesiwn llunio polisi, Gweinidogion, Bwrdd Llywodraeth Cymru ac ARAC, felly dylid ei wneud yn orfodol.

Mae dadl hefyd y dylai'r hyfforddiant hwn gael ei fandadu ar gyfer pob swyddog wrth iddynt gael eu symud i'r gwaith o lunio polisïau o broffesiynau eraill, er enghraifft wrth reoli Brexit ac yn ystod y pandemig.

Enghreifftiau gan gyrff cyhoeddus:

Mae gan Gyngor Ceredigion hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf a'r adborth o hyn yw bod yr holl staff, o leiaf, yn ymwybodol o'r dyletswyddau a'r weledigaeth y mae'r Ddeddf yn eu gosod.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn anfon eu graddedigion ar gwrs Meistr, sy'n cynnwys modiwl a ddatblygwyd yn benodol o amgylch y Ddeddf gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y problemau capasiti y mae'r gwasanaeth sifil yn eu hwynebu. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth sifil wedi bod yn delio ag argyfyngau lluosog ac, yn ddealladwy, nododd rhai swyddogion y siaradais â nhw eu bod yn cael trafferth dod o hyd i'r amser i gael mynediad at adnoddau hyfforddi, dysgu a datblygu ffurfiol:

> *"...mae fy ngwaith yn tueddu i fod yn ofnadwy o ddwys... dydw i ddim wedi talu digon o sylw i'm dysgu fy hun, fel y dylwn i ei wneud... mae fy nysgu personol fy hun i'w weld ychydig yn is i lawr yn y rhestr o flaenoriaethau."*
>
> ***Gwas sifil Llywodraeth Cymru***

Rwyf hefyd wedi clywed bod cyfyngiadau ar adnoddau a chapasiti wedi atal cyfleoedd secondiad i mewn ac allan o Lywodraeth Cymru, gan na all timau mewnol a sefydliadau allanol fforddio colli adnoddau ychwanegol.

Mae adeiladu amser i weision sifil gael mynediad at hyfforddiant yn hanfodol i wella galluoedd. Mae dod o hyd i'r amser i uwchsgilio pobl ac adeiladu'r galluoedd hyn, yn ddealladwy heriol mewn cyfnod o argyfyngau. Fodd bynnag, gall gwneud hyn helpu adeiladu gwytnwch yn yr hirdymor a galluogi llywodraeth i fod yn fwy hyblyg wrth iddi wynebu heriau newydd a chymhleth.

Dyfodol a Hirdymor

Canfyddiad:

Mae ymdrechion ar y cyd i ymgorffori meddwl hirdymor ar draws y llywodraeth, ond mae'r angen i ymateb i argyfyngau lluosog a chapasiti yn aml yn cael eu hystyried yn rhwystrau i weision sifil rhag cymhwyso'r fforddhon o weithio yn llawn.

Er bod y gwaith ar Weledigaeth 2025 i'w groesawu, credaf fod angen strategaeth hirdymor hefyd; yn benodol, yn ymwneud â sgiliau a galluogrwydd sydd eu hangen mewn gwasanaeth sifil sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Gall strategaeth o'r fath helpu i greu mwy o wydnwch a chynyddu arbenigedd o fewn gwasanaeth sifil Cymru; sicrhau bod y llywodraeth yn barod ar gyfer heriau'r dyfodol.

Canfu adroddiad Archwilio Cymru ar gynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru fod y llywodraeth wedi wynebu heriau staffio a phwysau ar y gweithlu; sy'n ei gwneud hi'n anodd cyflawni rhai uchelgeisiau polisi a chreu heriau hirdymor y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn cynllun gweithlu strategol. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn deall bod Llywodraeth Cymru yn gweithio arno ar hyn o bryd. Cytunaf ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol y byddai angen i strategaeth o'r fath wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn benodol ymdrin ag anghenion gweithlu hirdymor y dyfodol er mwyn cyflawni blaenoriaethau polisi. Hefyd, mae angen map ffordd i bontio bylchau rhwng maint a galluoedd presennol y gweithlu, ac anghenion y dyfodol.

Ceir enghreifftiau da iawn, mewn meysydd polisi amrywiol, o Lywodraeth Cymru yn ymestyn y tu hwnt i ystyriaethau o'r heriau presennol a'r ffordd o feddwl a chynllunio ar gyfer dyfodol mwy hirdymor.

Yn gynyddol, mae strategaethau a chynlluniau allweddol y llywodraeth, megis y Strategaeth Drafnidiaeth, Llwybr Newydd, a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol, yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer 20 mlynedd sydd i ddod, tra bod y Strategaeth Wastraff, Mwy Nag Ailgylchu, yn nodi llwybr a thargedau ar gyfer y 30 mlynedd nesaf, gan fynd â Chymru i 2050.

Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, Cymru Gryfach, Tecach, Gwyrddach, ar y llaw arall, yn defnyddio mesuriadau o lwyddiant hirdymor, ar ffurf y cerrig milltir cenedlaethol, sydd wedi'u gosod ar gyfer 2050.

Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol diweddaraf Llywodraeth Cymru, (y mae'n rhaid iddynt ei gynhyrchu bob pum mlynedd yn unol â'r Ddeddf), yn dangos gwelliant amlwg o'i fersiwn flaenorol, gyda naratif yn ymwneud â thueddiadau perthnasol yn y dyfodol, canllaw ar y ffordd orau o ddefnyddio'r adroddiad, rhestr o adnoddau defnyddiol ar gyfer y dyfodol, a ffeithlun gall pobl ei ddefnyddio ar gyfer cyfeiriadau cyflym.

Yn galonogol, mae'r Is-adran Dyfodol Cynaliadwy hefyd wedi pennu cymrawd ymchwil i gasglu gwybodaeth ac enghreifftiau ar sut mae'r adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn cael ei ddefnyddio gan dimau gwahanol yn y llywodraeth. Mae hwn yn gam pwysig i helpu'r tîm i ddysgu gwersi ar gyfer y fersiwn nesaf o'r adroddiad, a hefyd helpu gyda chymhwyso'r ffordd hirdymor o weithio yn ymarferol.

Pwyntiau allweddol o'r hyn sy'n gweithio'n dda o'n gweithdy hirdymor gyda Llywodraeth Cymru

- Ystyrir bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn enghraifft dda o gefnogi meddwl am y dyfodol drwy ddeddfwriaeth.
- Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn allbwn defnyddiol o ansawdd uchel a ysgrifennwyd ar gyfer y persbectif Cymreig gyda goblygiadau lleol yn y naratif.
- Mae rhagwelediad yn Llywodraeth Cymru yn cael ei gymryd o ddifrif - hyfforddiant rhagwelediad ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sefydlu rhagwelediad mewn Tai trwy labordai byw, mae yna Bennaeth Dyfodol ac Is-adran Dyfodol Cynaliadwy.
- Mae'r llywodraeth yn gynyddol yn mabwysiadu ymagwedd fwy cyfannol at lunio polisi.
- Mae llywodraeth Cymru wedi cymryd cam cadarnhaol rhwng cenedlaethau drwy roi'r hawl i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol.
- Ymdrechion i ystyried seilwaith a chynllunio trefol a'i effaith ar genedlaethau'r dyfodol a'r presennol yn fwy gofalus.
- Llywodraeth Cymru yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i feddwl yn hirdymor wrth ddatblygu Asesiadau Llesiant.
- Mae'r llywodraeth hefyd wedi cynnal archwiliadau defnyddiol o ddyfodol gwahanol faterion, mae enghreifftiau i'w gweld yn yr Adroddiad Llygredd Aer yng Nghymru 2020 (Hydref 2021) a'r adroddiad Amaethyddiaeth yng Nghymru (Mehefin 2019).

Er bod y rhain yn enghreifftiau da iawn o ble mae pethau'n mynd yn dda gyda'r ffordd hon o weithio, gan eithrio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, nid wyf wedi gweld unrhyw adnoddau eraill wedi'u targedu'n benodol at uwchsgilio gweision sifil i ymgorffori meddwl hirdymor yn eu harferion a'u polisïau bob dydd.

Enghraifft dda gan gyrff cyhoeddus:

Mae Cyngor Sir Fynwy yn arwain ar Infuse – rhaglen arloesi ac ymchwil sydd wedi'i chynllunio i feithrin sgiliau a gallu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus arloesol yn y dyfodol ar draws Ranbarth Prifddinas Caerdydd.

Rwyf hefyd wedi clywed gan rai gweision sifil ei bod yn anodd cymhwyso ac egluro ystyriaethau hirdymor i bobl pan fo'r heriau presennol mor amlwg. Mae hwn yn gyfyng-gyngor ychwanegol a chymhleth i weision sifil yn enwedig yn y cyfnod presennol pan mae'n anoddach fyth cynnwys pobl mewn gweledigaeth a chynlluniau hirdymor, tra eu bod yn cael trafferth gyda phandemig a'r argyfwng costau byw. Yn fy marn i, bydd angen i lywodraethau byd-eang ddeall yn well sut i gymhwyso meddylfryd hirdymor mewn byd parhaus VUCA (anwadal, ansicr, cymhleth ac amwys) – wrth i'r rhaniad rhwng ymateb i argyfwng ac atal cydfodoli a dod yn gyffredin.

> "pan fyddwch chi'n siarad â phobl y mae eu profiad ar hyn o bryd o wahaniaeth ac anfantais... mae yna ... sensitifrwydd ... o ran sut mae gennych chi ffocws priodol ar 'mewn gwirionedd, mae yna hawl yma, ar hyn o bryd,' arwyddocaol gwahaniaeth mewn canlyniadau... mae'n rhaid ymdrin â hynny fel mater ar hyn o bryd, cyn i chi ennill yr hawl i siarad am genedlaethau'r dyfodol."
>
> ***Gwas sifil Llywodraeth Cymru***

Mae sefydliadau allanol hefyd wedi dweud wrthyf fod ymateb i heriau parhaus yn atal gallu gweision sifil i ymarfer a chymhwyso meddwl hirdymor.

Pwyntiau allweddol o beth yw'r bylchau o'n gweithdy hirdymor gyda Llywodraeth Cymru

- Pwyntiau allweddol o beth yw'r bylchau o'n gweithdy hirdymor gyda Llywodraeth Cymru.
- Mae asesiadau staff yn gwobrwyo cyfra-niad unigol yn hytrach na chydweithio grŵp.
- Ychydig o'r setiau data y mae'r llywodraeth yn eu defnyddio sy'n ymwneud â'r hirdymor; gall cadw cofnodion fod yn wael.
- Strwythur trefniadol hierarchaidd, sy'n tueddu i leihau'r cyfleoedd ar gyfer meddwl dargyfeiriol am broblemau.
- Nid yw meddylfryd systemau yn arferol eto.
- Mae cyfyngiadau ar ddeddfwriaeth o ran creu newid - mae angen meithrin gallu, ailgynllunio seilwaith, a newid mewn normau beunyddiol i greu amodau ar gyfer newid system gyfan hefyd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn brin o bobl o ganlyniad i lymder. Mae amser yn adnodd cyfyngedig.
- Gall gallu polisi fod yn wan hefyd mewn rhai meysydd, felly mae'n werth integreiddio datblygiad gallu'r dyfodol gyda dulliau sydd hefyd yn helpu i atgyfnerthu gallu polisi.
- Mewn argyfwng, mae llawer o bolisi yn cael ei gyfeirio at flaenoriaethau uniongyrchol - angen dod o hyd i ffordd i fynegi nodau ty-mor hwy o fewn cyd-destun pwysau a blaenoriaethau tymor byr.
- Yn aml gall systemau technoleg osod cyfyngiadau ar ddulliau cydweithredol a ren-nir o ymdrin â pholisi.

Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi cytuno â mi fod hwn yn faes y gellir ei wella. Mae dull dysgu byw a rhannu'r adolygiad hwn eisoes wedi ysgogi gwaith yn y maes hwn rhwng fy swyddfa, yr Ysgol Dyfodol Rhyngwladol a Llywodraeth Cymru – yn ddiweddar cynhaliwyd gweithdy dyfodol mewnol gyda swyddogion o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru i ddeall y bylchau a'r cyfleoedd i wella'r ystyriaeth a'r defnydd o ragwelediad mewn llywodraeth. Mae cyfleoedd i wneud yn well a nodwyd yn y gweithdy wedi'u hychwanegu at yr adrannau Meysydd i'w Gwella ym mhenodau perthnasol yr adroddiad hwn.

